Llwybr Clywedog

cylchdaith 2½ milltir / 4 km

Pellter: 2½ milltir / 4 km
Amser: Tua 1-2 awr
Gradd: Llwybr Hamdden Canolig
Dechrau/Diwedd: Cilfan ym mhentref Brithdir ar y B4416
Cyfeirnod Grid: SH 761 182

Tirwedd: Llwybrau anwastad gyda rhai darnau serth (Gwisgwch esgidiau addas).
Map: OS Explorer OL23 (Cadair Idris a Llyn Tegid)
Parcio: Cilfan ym mhentref Brithdir ar y B4416







© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. 100022403, 2012

Nodwch: Map bras yn unig yw hwn. Dylech ddefnyddio'r fersiwn diweddaraf o'r map Arolwg Ordnans perthnasol (gweler uchod) wrth gerdded y daith.

Sut i fynd yno?
O Ddolgellau, dilynwch yr A470 i'r de. Ar ôl dwy filltir, trowch i'r chwith am y B4416 i gyfeiriad Brithdir. Croeswch y bont gul, Pont ar Ddibyn, ymhen 50m. Ymhen 200m wedi hynny mae cilfan ar y chwith a mynegbost yn nodi'r llwybr.

Llwybr Clywedog

Am y llwybr hwn

Dyma un o lwybrau mwyaf poblogaidd cyffiniau Dolgellau ac mae'r llwybr cylch hwn yn dilyn taith fyrlymus afon Clywedog trwy geunant trawiadol. Adeiladwyd y llwybr yn wreiddiol gan Thomas Payne a'i fab, ef a gynlluniodd y Cob ar draws afon Glaslyn ym Mhorthmadog. Comisiynwyd y gwaith gan y Barwn Richards o Blas Caerynwch yn uwch i fyny'r afon er mwyn ymestyn gerddi'r Plas.

Yn ddiweddar, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi atgyweirio'r hen lwybr ar ochr ddwyreiniol y ceunant gan ddilyn trywydd yr hen lwybr lle bo hynny'n bosib. Gan bod yr holl geunant wedi ei ddynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SODdGA) roedd yn rhaid cyflawni'r gwaith heb amharu ar y safle.

Ar un adeg roedd glannau afon Clywedog yn llawn bwrlwm diwydiant. Roedd yma bandy, efail, melin wlân a ffwrnais haearn ac mae rhai ohonynt yma hyd heddiw. Mae'r ceunant yn llawn bywyd gwyllt a phlanhigion arbennig hefyd - mae yma ddyfrgwn, pathewod ac ystlumod trwyn pedol leiaf heb sôn am gasgliad pwysig o gen, rhedyn, mwsoglau, madarch a llysiau'r afu. Tybed sawl un o'r rhain y dewch chi o hyd iddynt?

www.eryri-npa.gov.uk

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth, Gwynedd LL48 6LF Ffôn: 01766 770274

Llwybr Clywedog

cylchdaith 2½ milltir / 4 km

1 O'r gilfan, cerddwch yn ôl ar hyd y ffordd i gyfeiriad Pont ar Ddibyn am ganllath gan fynd heibio'r fynegbost gyntaf am Lwybr Clywedog, a chan gymryd gofal o'r drafnidiaeth. Wrth yr ail fynegbost am Lwybr Clywedog, trowch i'r dde drwy giât fochyn. Byddwch yn croesi pont bren dros y ceunant. Arferai pont ac iddi ganllawiau patrymog o goed fod yma yn union wedi i Thomas Payne gwblhau'r llwybr.

2 Ymhen ychydig cewch eistedd ar fainc i goffau Mary Richards, y botanegydd fu'n byw ym Mhlas Caerynwch ymhellach i fyny'r afon. Teithiodd lawer, i'r Affrig yn bennaf, a bu'n gyfrifol am ddod â sawl planhigyn trawiadol yn ôl i erddi Caerynwch a Kew yn Llundain. Gall sŵn yr afon fod yn fyddarol fan hyn pan fydd llif ar ôl y glaw.

3 Ymhellach ar i lawr mae tair craig fawr ar draws y llwybr a gariwyd yma gan rymoedd rhewlifol 10,000 o flynyddoedd yn ôl. Sylwch ar yr eiddew, y rhedyn a'r mwsoglau yn doreth dros y coed llydanddail uwchben – coed derw, ffawydd ac ynn. Mae rhywogaethau cenedlaethol prin o gen a llysiau'r afu yn tyfu yma.

4 Fe ddowch maes o law at y ffordd waelod. Nid nepell o Bont Clywedog i gyfeiriad Dolgellau mae olion hen ffwrnais haearn yn dyddio o flynyddoedd cynnar y ddeunawfed ganrif. Abraham Darby, y Crynwr o Coalbrookdale a'i adeiladodd. Roedd ef a Chrynwyr eraill o ffermydd Dolserau a Dolgun yn cloddio am fwyn haearn ar Dir Stent gerllaw a'i gludo i lawr at y ffwrnais. Os cewch gyfle, ewch i weld yr adfeilion. Rhaid cerdded am ganllath a hanner ar hyd y ffordd fach i gyfeiriad Dolgellau o Bont Clywedog.

5 Trowch i'r dde dros Bont Clywedog i barhau ar hyd Llwybr Clywedog (trowch i'r chwith i wyro oddi ar y llwybr i weld olion y ffwrnais). Sylwch ar yr enwau wedi eu naddu i gerrig canllaw'r bont. Hen felin wlân a warws oedd yr adeiladau i'r dde. Roedd ffos y felin yn tynnu dŵr o'r afon yn uwch i fyny ac mae olion i'w gweld hyd heddiw. Roedd yn rhaid rheoli llif y dŵr yn y ffos hon rhag i olwyn ddŵr y felin falu - mewn tywydd gwlyb, gallai lefel a grym dinistriol yr afon godi'n aruthrol mewn dim o dro.

6 Cadwch i'r dde yn y fforch o'ch blaen a cherddwch fyny'r allt nes dod yn fuan at fynegbost arall. Dilynwch y llwybr ar hyd y ceunant yn ôl at y car. Cewch olygfeydd hyfryd o'r rhaeadrau ar hyd y daith, a byddwch yn y gwanwyn yn cerdded drwy goedlan yn llawn clychau'r gog, blodau'r gwynt a chraf y geifr (garlleg gwyllt).

PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK

www.eryri-npa.gov.uk

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth, Gwynedd LL48 6LF Ffôn: 01766 770274